# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 4 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, E. Dole, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens and J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: D.M. Cundy and J.G. Prosser

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
L Morris, Senior Press Officer
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.10 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y cynghorydd | Rhif y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H.A.L. Evans | 8 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 tan 2021/22 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2019/20 | Ei chwaer yw Prif Weithredwr cymdeithas tai leol |
| H.A.L. Evans | 11 – Cartrefi Croeso Cyfyngedig – Gofyniad Ariannu | Ei chwaer yw Prif Weithredwr cymdeithas tai leol |
| Wendy Walters - Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi | 11 – Cartrefi Croeso Cyfyngedig – Gofyniad Ariannu | Cyfarwyddwr Cartrefi Croeso |
| Jake Morgan - Cyfarwyddwr Cymunedau | 11 – Cartrefi Croeso Cyfyngedig – Gofyniad Ariannu | Cyfarwyddwr Cartrefi Croeso |

3. **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 21AIN IONAWR 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2019 yn gofnod cywir.**

4. **CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. **CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. **STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2019/20 - 2021/22**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf ynghylch Cyllideb Refeniw 2019/2020 ac yn darparu'r ffigurau mynegiannol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/2021 a 2021/2022. Hefyd roedd yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb gan roi diweddariad ynghylch dilysu'r gyllideb, y gwasgfeydd o ran gwariant, setliad terfynol Llywodraeth Cymru, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau amlinelliad i'r Bwrdd o nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar y gyllideb, gan gynnwys y setliad terfynol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2018 a oedd yn darparu cyllid ychwanegol o gymharu â'r setliad dros dro a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018. O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol hwnnw, bu'n bosibl ailedrych ar rai o gynigion cychwynnol y gyllideb ac ystyried opsiynau pellach gan gynnwys rhoi ystyriaeth i'r cynnig diweddaraf o godiad cyflog a chefnogi gwasanaethau oedd yn cael eu harwain gan y galw ac a wynebai bwysau parhaus am ddarparu gwasanaethau, megis Gofal Cymdeithasol. Er bod y setliad terfynol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ffigur ychydig yn well na'r setliad dros dro, roedd yn parhau i fod yn gyllideb heriol iawn ac yn gyfystyr â lleihad mewn cyllid mewn termau go iawn o ystyried chwyddiant a symudiadau eraill mewn prisiau. Ymhellach, ar gyfer blwyddyn yn unig yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu ffigurau ar lefel Awdurdod, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i ragweld yn y tymor canolig o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yn benodol, roedd rhaid i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth San Steffan a oedd i'w gynnal yn 2019.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod manylion llawn y setliad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ond mai'r pwyntiau mwyaf trawiadol oedd bod cynnydd o 0.2% wedi bod yn y cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol ar sail Cymru gyfan, gyda Sir Gaerfyrddin yn cael setliad arian gwastad ar sail tebyg am debyg o gymharu â 2018-19. Tra bod y setliad terfynol yn darparu £1.557m ychwanegol i'r Awdurdod o gymharu â'r setliad dros dro, roedd hefyd yn dod â chyfrifoldebau ychwanegol gan gynnwys newidiadau yn y cynllun rhyddhad ardrethi a chyllid i dalu am gymhwyster ychwanegol am brydau ysgol am ddim.

Cynghorwyd y Bwrdd Gweithredol hefyd, tra bod mwyafrif y grantiau penodol wedi'u cynnal ar werth niwtral yn ariannol, fod yr awdurdod, fel oedd yn

nodweddiadol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, yn dal i aros am gadarnhad am rai grantiau arwyddocaol a fyddai'n cefnogi cynllun y gyllideb yn benodol, gyda golwg ar wastraff ac ar gyllid chweched dosbarth. Yr hyn nad oedd yn nodweddiadol, fodd bynnag, oedd lefel yr ansicrwydd ynghylch cyllido pensiynau athrawon. Er mai'r arwyddion anffurfiol oedd y byddai'r cyllid yn cael ei gyflawni'n llawn, yn yr un modd ag y bwriadwyd yn Lloegr, roedd yr ansicrwydd ynghylch talu yng Nghymru yn peri risg arwyddocaol gyda golwg ar gyllideb 2019/20.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wedi gwneud nifer o addasiadau i rai o'r ffigurau o fewn y strategaeth fel sy'n arferol wrth i fwy o wybodaeth a gwybodaeth gliriach fod ar gael, gyda'r dilysiad cyfan presennol yn ychwanegu rhyw £11.3m i'r gyllideb. Roedd un o'r addasiadau hynny yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol i Oedolion i ddiwallu'r costau cynyddol y byddai'r Cyngor yn eu hwynebu o ganlyniad i ddifodiant Allied Health Care a'r penderfyniad yn dilyn hynny i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol. Er bod hynny wedi'i gwblhau gan amharu cyn lleied â phosibl ar y defnyddwyr gwasanaeth, byddai angen i gyllideb 2019/20 ddarparu ar gyfer cysoni telerau ac amodau'r gweithwyr, gan gynnwys graddfeydd cyflog.

Fel oedd yn wir yn 2018/19, roedd y dilysiad mwyaf arwyddocaol ar gyfer cyllideb 2019/20 yn ymwneud â'r cynnig o godiad cyflog a wnaed gan y corff cyd-drafod ar gyfer gweithwyr, a fyddai'n darparu codiad cyflog o 2% ynghyd â chyflwyno colofn gyflogau newydd o fis Ebrill 2019 a fyddai'n cysoni rhai o bwyntiau presennol y golofn gyflogau ac yn pontio rhai o'r bylchau digyswllt rhwng pwyntiau cyflog. Ar gyfer Sir Gaerfyrddin, byddai'r staff a oedd ar y cyflogau isaf, a oedd eisoes yn derbyn cyflog byw y Living Wage Foundation, yn derbyn cynnydd o 4.9%. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y cynnig cyflog yn berthnasol i athrawon, a oedd yn destun trefniadau cyflog cenedlaethol ar wahân gyda chynnydd o hyd at 3.5% o gymharu â mis Medi 2018 a chodiad blynyddol o 2% yn y blynyddoedd i ddod.

Tynnodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau sylw'r Bwrdd hefyd at gynigion cyllideb y Cyngor, fel ym mis Tachwedd 2018, a oedd yn rhagdybio setliad niwtral yn ariannol ar gyfer ysgolion. Dywedodd y byddai'r cynigion presennol, o ganlyniad i gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd fel rhan o'r setliad, nid yn unig yn ychwanegu gwerth £1.8m o gyllid grant i ysgolion ond hefyd £0.75m pellach o gyllid craidd, a fyddai'n golygu bod cyfanswm y cynnydd yn y gyllideb dros £2.57m.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod y swm o £528k ar gael i wneud rhai addasiadau hollbwysig i strategaeth y gyllideb, yng ngoleuni'r ffaith fod yr Awdurdod wedi elwa ar gael setliad mwy cadarnhaol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ac ar ôl gwneud rhai newidiadau o ran dilysu. Yn unol â hynny, cynigiwyd gwneud y newidiadau canlynol i rai o gynigion yr adroddiad yn ymwneud â'r gyllideb ac arbedion effeithlonrwydd:-

- Dileu'r lleihad yn y gyllideb o £32k ar gyfer graeanu yn ystod y gaeaf
- Bod £186k o'r gyllideb Ysgubo Ffyrdd Gwledig yn cael ei ailsefydlu i liniaru yn erbyn effeithiau mwyaf llym y lleihad arfaethedig
- Gohirio'r toriadau arfaethedig i'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a Seicoleg Addysg am flwyddyn i gydnabod yr ymateb negyddol a gafwyd gan y cyhoedd a hefyd y pryderon a godwyd gan gynghorwyr yn ystod sesiynau seminar yr aelodau;

- Wrth gydnabod y pwysau a roddir ar y gwasanaeth meysydd parcio bod £160k ychwanegol yn cael ei ddarparu i ganiatáu mwy o hyblygrwydd yn y gwasanaeth ac i gyfyngu ar unrhyw gynnydd mewn taliadau parcio ledled Sir Gaerfyrddin;
- Bod yr Adran Cymunedau, dros y flwyddyn nesaf, yn ailedrych ar y cynnig i gau Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn ac yn ceisio dod o hyd i newid yn y modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, a fyddai'n caniatáu i'r cyfleuster barhau i weithredu a hynny gan gyflawni'r lleihad mewn cost a gynigir;
- Bod prisiau prydau ysgol yn cael eu rhewi ar gyfer 2019/20

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol hefyd at y teimladau negyddol a gafwyd i'r lleihad yn y gyllideb ar gyfer gosod wyneb newydd ar briffyrdd a dywedodd fod y grant ychwanegol o £1.5m y flwyddyn am dair blynedd a sicrhawyd gan y Cyngor, [fel y manylir yn y rhaglen gyfalaf bum mlynedd] yn mwy na gwneud iawn am y lleihad arfaethedig yn y gyllideb refeniw.

Wrth grynhoi, argymhellodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 yn cael ei bennu yn 4.89%, i alluogi'r Cyngor i weithredu'r strategaeth ond gan ystyried y newidiadau uchod ar yr un pryd.

Cyfeiriwyd at gynnig effeithlonrwydd blwyddyn 2 i newid amlder cyfarfodydd y Cyngor o fod yn rhai misol i fod yn rhai chwarterol. Gan nad oedd y cynnig wedi cael cefnogaeth gan yr aelodau'n gyffredinol, awgrymwyd ei fod yn cael ei dynnu'n ôl a bod llwybrau eraill yn cael eu harchwilio er mwyn dod o hyd i ffyrdd amgen o weithio.

Cyfeiriwyd hefyd at y cynnig effeithlonrwydd ar gyfer Cludiant Ysgol Ôl-16 lle awgrymwyd bod yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 yn cael eu tynnu'n ôl er mwyn gallu adolygu'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth, yn enwedig gyda golwg ar seddi sbâr/segur honedig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**6.1 bod Strategaeth y Gyllideb am 2019/20 yn cael ei chymeradwyo yn amodol ar y newidiadau a'r cynigion y manylwyd arnynt uchod;**
**6.2 Bod y Dreth Gyngor Band D am 2019/20 i'w gosod ar £1,255.17 (cynnydd o 4.89% ar gyfer 2019-2020);**
**6.3 Bod y dyraniad o £528k o gyllid cylchol a oedd ar gael yn cael ei ddyrannu, fel y manylir uchod**
**6.4 bod y cynllun ariannol tymor canolig amodol yn cael ei gymeradwyo yn sylfaen i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.**
**6.5 Bod y cynigion effeithlonrwydd i newid amlder cyfarfodydd y Cyngor o fod yn rhai misol i fod yn rhai chwarterol [blwyddyn 2] a Chludiant Ysgol Ôl-16 [blynyddoedd 2 a 3] yn cael eu tynnu'n ôl**

## 7. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) - 2019/20 - 2023/24

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf am Raglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2019/20 hyd at 2023/2024. Roedd yr adroddiad yn cymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r goblygiadau refeniw oedd yn deillio o'r rhaglen gyfalaf.

Nododd y Bwrdd mai £104.708m oedd gwariant gros arfaethedig y rhaglen gyfalaf am 2019/20. Y bwriad oedd i'r Cyngor Sir gyllido £59.109m o'r rhaglen drwy ddefnyddio benthyciadau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn a'r grant cyfalaf cyffredinol a bod y £45.599m oedd yn weddill yn dod o ffynonellau allanol. Dywedwyd wrth y Bwrdd y rhagwelid y byddai'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chyllido'n llawn dros y cyfnod o bum mlynedd o 2019/20 drwodd i 2023/24.

Hysbysodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau y Bwrdd y byddai'r rhaglen dreigl bum mlynedd yn gwireddu buddsoddiad o bron £261m i gyd (amcangyfrifwyd y byddai cyllid y Cyngor Sir yn £133m a £128m o gyllid allanol). Fodd bynnag, yn yr un modd â'r setliad refeniw, nid oedd yr awdurdod wedi cael unrhyw ragamcanion oddi wrth Lywodraeth Cymru gyda golwg ar gyllid cyfalaf cyffredinol y tu hwnt i 2019/10. O ganlyniad, roedd y rhaglen yn seiliedig ar fod benthyca â chymorth, a grant cyffredinol, y blynyddoedd i ddod ar yr un lefel ag y byddent yn 2019/20. Fodd bynnag, roedd grant cyfalaf ychwanegol at ddibenion cyffredinol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd o 2018/19 i 2020/21 a oedd yn dod i ryw £6.6m, a oedd wedi'i gynnwys o fewn y rhaglen cyfalaf 5 mlynedd.

Nododd y Bwrdd Gweithredol fod nifer o gynlluniau ychwanegol newydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r rhaglen, er enghraifft:

- Yr Adran Cymunedau - roedd yna gyllid newydd ar gyfer Canolfan Hamdden Dyffryn Aman ynghyd â pharhau i gefnogi tai'r sector preifat yn 2023/24 ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Adran yr Amgylchedd - parhau i gefnogi gwelliannau priffyrdd, cynnal a chadw pontydd a chynlluniau diogelwch ffyrdd i mewn i 2023/24 a hefyd Llwybr Dyffryn Tywi yn 2019/20. Yn ogystal, o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gwnaed cynnydd o £1.5m ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd i'r gwariant a glustnodwyd ar gyfer adnewyddu ffyrdd.
- Roedd y Rhaglen Moderneiddio Addysg wedi cael ei diwygio ar gyfer blynyddoedd 2019/20 i 2023/24, ac roedd cyllidebau wedi'u hail-broffilio a rhai cynlluniau newydd wedi'u cyflwyno gan gynnwys Ysgolion Cymraeg Cydweli, yr Hendy, Llandeilo a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy ffrwd yn Rhydaman. Bu hyn yn bosibl o ganlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ei bod yn cymeradwyo rhaglen Band B y Cyngor a fyddai'n rhedeg tan 2024, a'r prif newid oedd cynyddu'r gyfradd ymyrryd o 50% i 65% ar gyfer ysgolion ac o 50% i 75% ar gyfer ysgolion arbennig. Roedd y cynnydd hwnnw wedi rhoi cyfle i'r awdurdod ddarparu rhagor o ysgolion o fewn y rhaglen Band B gwerth £129.5m.
- Mae cyllidebau Adfywio a'r Prif Weithredwr bellach yn cynnwys cynlluniau'r Fargen Ddinesig, gan gynnwys y Pentref Llesiant a'r Egin. Roedd Canolfan Hamdden arfaethedig Llanelli a'r adolygiad o Ardal Llanelli hefyd wedi'u nodi fel cydran allweddol o fewn datblygiad arfaethedig y Pentref Llesiant. Roedd yna hefyd gefnogaeth barhaus ar gyfer Cronfa Prosiectau'r Strategaeth Drawsnewid o fewn yr adran Adfywio ar gyfer 2023/24 a oedd â'r potensial o gael cyllid allanol fel arian cyfatebol i gyllideb y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**7.1** **bod y cyllid a'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd, fel y'u nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad, gyda 2019/20 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2020/21 i 2023/24 yn gyllidebau amhendant/dangosol yn cael eu cymeradwyo;**

**7.2** **bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid disgwyliedig gan gyrff allanol neu'r Cyngor Sir.**

**7.3** **bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y manylir arni yn Atodiad C, yn cael ei chymeradwyo.**

## 8. CYFRIF CYLLIDEB REFENIW TAI 2019/20 - 2020/21 A LEFELAU RHENTI TAI 2021/22 - REFENIW A CHYFALAF

(NODER: Roedd y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach).

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a baratowyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd â swyddogion o'r Adran Cymunedau a oedd yn dod ynghyd â'r cynigion diweddaraf ar gyfer Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai am 2019/20 i 2021/22. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu – Cymunedau yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2018, fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod yr adroddiad wedi cael ei baratoi gan adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd yn rhan o Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod y buddsoddiad arfaethedig yn y cynllun busnes presennol wedi cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn 2015 (i'r cartrefi hynny lle'r oedd tenantiaid wedi cytuno i gael y gwaith wedi'i wneud), wedi darparu'r buddsoddiad i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, ac wedi parhau i fuddsoddi yn Ymrwymiad i Dai Fforddiadwy'r Cyngor.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod y buddsoddiad cyfalaf o £231m yn y cynllun busnes presennol wedi cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin, a bod cyllideb bellach wedi'i datblygu i sicrhau bod y cyllid priodol yn cael ei ddyrannu er mwyn cynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy yn achos yr holl eiddo wrth edrych tua'r dyfodol. Rhagwelid y byddai tua £45m yn cael ei wario yn cynnal a chadw'r stoc a'i huwchraddio dros y tair blynedd nesaf. Roedd y gyllideb hefyd yn darparu £44m o gyllid dros y tair blynedd nesaf i gefnogi Rhaglen Tai Fforddiadwy'r Cyngor, a fyddai'n hwyluso cynnydd yng nghyflenwad y tai fforddiadwy ar hyd a lled y Sir drwy wahanol atebion gan gynnwys y rhaglen adeiladu tai newydd a'r cynllun prynu'n ôl. Byddai'r Cyngor hefyd yn ymgymryd â'r rhaglen adeiladu tai newydd drwy gyfrwng ei raglen gyfalaf ei hun a thrwy'r Cwmni Tai newydd - Cartrefi Croeso.

O ran pennu Rhenti Tai, atgoffwyd y Bwrdd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Polisi Cysoni Rhent Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru o'r blaen, a olygai i bob pwrpas bod unrhyw gynnydd arfaethedig mewn rhent yn cael ei ragnodi gan ganllawiau Llywodraeth Cymru a bod hyn yn dosbarthu rhenti i denantiaid y sector cymdeithasol mewn modd tecach.

Daeth y polisi hwn i ben yn 2018/19 a chyflwynwyd polisi interim am flwyddyn ar gyfer 2019/20, gan ragweld y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno polisi newydd i'w weithredu yn 2020/21. Roedd y polisi interim hwnnw'n caniatáu i awdurdodau lleol o fewn eu band rhent targed gynyddu rhent yn ôl CPI yn unig. Gan fod Sir Gaerfyrddin ar y pryd o fewn y band rhent targed o ychydig, argymhelliad yr adroddiad cyfredol oedd cynnydd o 2.4% ar draws pob eiddo.

Fodd bynnag, ar 30 Ionawr 2019, roedd Llywodraeth Cymru wedi hysbysu awdurdodau lleol o ddiwygiad i'r polisi interim a oedd yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol â rhent cyfartalog o fewn y Band Rhent Targed gynyddu rhent 'hyd at £2 yr wythnos', yn amodol ar sicrhau nad oedd y cynnydd cyfan mewn rhent ar gyfer eu hanghenion cyffredinol a'u stoc tai gwarchod yn fwy na 2.4% ac na fyddai unrhyw denant unigol yn derbyn cynnydd mewn rhent oedd yn fwy na'r codiad polisi y cytunwyd arno o 2.4% ynghyd â'r cynnydd o £2.00.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod y newid yn safbwynt Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i'r awdurdod gyflawni ei ymrwymiad blaenorol i denantiaid trwy weithredu'r polisi cysoni a sefydlu lefel decach o rent i'w holl denantiaid. O ganlyniad, cynigiwyd bod argymhelliad 1, o fewn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol y diwrnod hwnnw, yn cael ei newid i:-

"1. Cynyddu'r rhent tai cyfartalog yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Interim Llywodraeth Cymru (diwygiwyd ar 30 Ionawr).

a. Bydd cynnydd o 1.92% yn digwydd i renti eiddo sydd ar y rhenti targed.
b. Caiff y rhenti hynny sy'n uwch na'r targed eu rhewi hyd nes eu bod yn unol â'r rhent targed.
c. Gwneir cynnydd o 1.92% i'r rhenti hynny sydd yn is na'r rhent targed a chânt eu cynyddu £1 yr wythnos ar y mwyaf.

Bydd hyn yn cynhyrchu cynnydd o 2.4% neu £2.05 mewn rhent tai cyfartalog a bydd yn darparu'r un gwerth casglu cyffredinol i'r Cyfrif Tai."

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, pe bai'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo'r argymhelliad diwygiedig, y byddai'n cael ei adrodd wrth y Pwyllgor Craffu - Cymunedau er mwyn ymgynghori yn ei gylch, gydag unrhyw ymateb yn hynny o beth yn cael ei adrodd yn uniongyrchol wrth y Cyngor ar 20 Chwefror.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**8.1 bod y rhent tai cyfartalog yn cael ei gynyddu yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (diwygiwyd 30 Ionawr) h.y.:-**

- **Bod cynnydd o 1.92% yn cael ei wneud i renti eiddo sydd ar y targed**
- **Bydd y rhenti hynny sy'n uwch na'r targed yn cael eu rhewi hyd nes eu bod yn unol â'r targed**
- **Bod cynnydd o 1.92% yn cael ei wneud i'r rhenti hynny sydd yn is na'r rhent targed a'u bod yn cael eu cynyddu £1 yr wythnos ar y mwyaf**

**gan felly gynhyrchu cynnydd o 2.4% neu £2.05 mewn rhent tai cyfartalog a bydd yn darparu'r un gwerth casglu rhent cyffredinol i'r Cyfrif Tai.**

**8.2 Cadw rhent garejis yn £9.00 yr wythnos a sylfeini garejis yn £2.25 yr wythnos;**
**8.3 Rhoi'r polisi ynghylch taliadau am wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid a oedd yn cael gwasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;**
**8.4 Cynyddu'r taliadau am ddefnyddio gwaith trin carthffosiaeth y Cyngor, yn unol â'r cynnydd mewn rhenti;**
**8.5 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019/20 (cyllidebau dangosol yw rhai 2020/21 a 2021/22), fel y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad.**
**8.6 Bod y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllido perthnasol ar gyfer 2019/20, a'r gwariant mynegiannol a bennwyd ar gyfer y blynyddoedd i ddod o 2020/21 i 2021/22, fel y'u nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.**

## 9. SAFON TAI SIR GAERFYRDDIN A MWY (STSG+) CYNLLUN BUSNES 2019–22

The Executive Board considered the Carmarthenshire Homes Standard Plus (CHS+) Business Plan 2019-2022 plan the purpose of which was to:

- explain the vision and detail of maintaining and improving the Carmarthenshire Homes Standard Plus over the next three years, and what it means for tenants;
- outline how we can deliver transformational change and investment, and set even more ambitious affordable homes targets for the future;
- confirm the financial profile, based on current assumptions, for the delivery of the CHS+ over the next three years; and
- produce a business plan for the annual application to Welsh Government for Major Repairs Allowance (MRA) for 2019/20, equating to £6.1m.

The Executive Board Member for Housing advised that if the report and its recommendations were to be adopted, it would result in some £45m being spent over the next three years to maintain tenant homes. It would also allow the submission of an application to the Welsh Government for a £6.1 million Major Repair Allowance for 2019/20. The Executive Board Member outlined a plan for 2019 to include –

- £1million for building work on existing estates
- £2 million to bring empty council houses back to use as soon as possible and to the CHS+ standard
- £1.5 million to improve communal areas in Shelter Schemes
- £0.25 million for improvements in relation to fire safety

**UNANIMOUSLY RESOLVED TO RECOMMEND TO COUNCIL THAT:-**

**9.1 the ambitious vision of the CHS+ and the financial and delivery programme over the next three years be confirmed;**
**9.2 the submission of the plan to Welsh Government be confirmed.**

## 10. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2019-2020

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, wedi cytuno i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o

ran Rheoli'r Trysorlys, a hefyd i gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Yn ogystal, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn unol â'r gofynion uchod, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i Bolisi a Strategaeth y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 cyn eu rhoi gerbron y Cyngor yn ffurfiol ar gyfer eu mabwysiadu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**10.1 bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019-20 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo,**
**10.2 bod Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

## 11. CARTREFI CROESO CYFYNGEDIG GOFYNIAD CYLLIDO

(NODER:
1. Roedd y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach;
2. Gan iddynt yn gynharach ddatgan buddiannau yn yr eitem hon, gadawodd Mrs W. Walters (Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi) a Mr J. Morgan (Cyfarwyddwr Cymunedau) y cyfarfod tra oedd y Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr eitem.

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol ei fod, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, wedi cytuno ar drefniadau ariannol ar gyfer Cartrefi Croeso Cyfyngedig er mwyn cynnal ei gostau o ran gweithredu a datblygu'r cynllun, ar y sail a nodwyd yn yr adroddiad. Yn dilyn yr adroddiad hwnnw, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnig sicrhau cyfleuster cyllido cyfunol priodol er mwyn caniatáu i Cartrefi Croeso Cyfyngedig ddechrau datblygu dau gynllun a bodloni'r trefniadau cyllido parhaus o ran costau gweithredu a chostau datblygu cynlluniau yn y dyfodol, yn ogystal â darparu ychydig wrth gefn i ddechrau cynlluniau yn y dyfodol sy'n cael eu nodi'n gynlluniau hyfyw.

Cyfeiriwyd at y trefniadau dirprwyo y dylid eu gwneud ar gyfer y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ac roedd cefnogaeth i'r farn y dylid newid paragraffau 5[d] a 5[f] yr adroddiad fel eu bod yn dweud y dylid dirprwyo gan ymgynghori â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR BOD Y CYLLID CANLYNOL YN CAEL EI ROI I CARTREFI CROESO CYFYNGEDIG:-**

**11.1 Cyfleuster cyllido - uchafswm o £6m**
**11.2 Hyd y trefniant - 5 mlynedd. Roedd hyn yn seiliedig ar ddefnyddio'r benthyciad ar gyfer datblygiadau'r cynllun a'i ad-dalu o fewn amserlenni'r cynllun busnes**
**11.3 Llog o 1.6% yn uwch na'r gyfradd a bennwyd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gan adlewyrchu'r diogelwch rhannol a fydd ar gael i'r Cyngor o'r tir/gwaith cyn ei werthu**
**11.4 Cyfleuster cyllido i'w weithredu fel trefniant gorddrafft - arian i'w**

**ddefnyddio pan fo angen yn unig a bydd y balans yn gostwng wrth i arian ddod i law**

**11.5 Mae cymeradwyo rhyddhau cyllid (hyd at y terfyn) i'w ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, gan ymgynghori â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, a bydd y cyfleuster i'w weinyddu fel a ganlyn:-**

- **a) Rhyddhau'r cyllid adeiladu dim ond ar ôl i'r tendrau gael eu dychwelyd, ar ôl cadarnhau ac asesu bod y cynllun yn dal i fod yn un hyfyw, ac ar ôl rhoi'r trefniadau contractiol ar waith,**
- **b) Rhoi Cytundeb Datblygu ar waith ar gyfer gwerthu'r tai cymdeithasol i'r Awdurdod;**
- **c) Costau Gweithredu: trefniadau benthyciad o oddeutu £280k y flwyddyn hyd nes y bydd y cwmni'n hyfyw heb yr elfen honno o gymorth;**
- **d) Costau Datblygu Prosiectau. Bydd yr uchafswm gwreiddiol a ddyrannwyd o £750k yn ddigon, ac at ddiben monitro a rheoli costau datblygu prosiectau bydd adroddiadau chwarterol manwl yn cael eu cyflwyno i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol gan ymgynghori â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau;**
- **e) Adeiladu'r cynllun yn y dyfodol. Cymeradwyo cyllid mewn egwyddor [heb fod yn fwy nag uchafswm y cyfleuster] ar ôl cwblhau arfarniadau datblygu safle-benodol a rhyddhau cyllid adeiladu dim ond ar ôl i'r tendrau gael eu dychwelyd, ar ôl cadarnhau ac asesu bod y cynllun yn dal i fod yn un hyfyw, ac ar ôl rhoi'r trefniadau contractiol ar waith;**
- **f) Bydd yr elfennau terfynol ynghylch y cytundeb benthyciad manwl yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol gan ymgynghori â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau.**

**11.6 Mae'r Cwmni i gyflwyno ei gynllun busnes 3 blynedd i'r rhanddeiliad erbyn 31 Mawrth yn flynyddol er mwyn monitro cynnydd a hyfywedd y trefniadau cyllido.**

## 12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

**CADEIRYDD** ________________ **DYDDIAD** ________________